

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Traffordd yr M4
(Cyffordd 23, Rogiet i Ffin
Cymru/Lloegr, Sir Fynwy)
(Gwahardd Cerbydau, Caniatáu
Traffig ar y Llain Galed a Therfyn
Cyflymder 50 MYA Dros Dro)
2018

The M4 Motorway (Junction 23,
Rogiet to the Wales/England
Border, Monmouthshire)
(Temporary Prohibition of
Vehicles, Trafficking of the Hard
Shoulder and 50 MPH Speed
Limit) Order 2018

Gwnaed 23 Tachwedd 2018

Made 23 November 2018

Yn dod i rym 1 Rhagfyr 2018

Coming into force 1 December 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the M4 Motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23, Rogiet i Ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau, Caniatáu Traffig ar y Llain Galed a Therfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2018.

1. The title of this Order is the M4 Motorway (Junction 23, Rogiet to the Wales/England Border, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles, Trafficking of the Hard Shoulder and 50 MPH Speed Limit) Order 2018 and it comes into force on 1 December 2018.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Rhagfyr 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. (1) In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984 Act(2) or in connection with the works giving rise to this Order;

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the motorway” (“*y draffordd*”) means the M4 London to South Wales Motorway;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 1 December 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

Gwaharddiad a Chyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 2.5 o fetrau o led neu fwy, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd o'r fath fynd, i unrhyw lôn nac ar unrhyw lôn ac eithrio lôn chwith y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

Atal Dros Dro

6. Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974(3), i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3, wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

7. Mae darpariaethau rheoliad 5 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982(4) a darpariaethau rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny sy'n ymwneud â gyrru cerbydau wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i lain galed y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn a chyfarwyddir traffig i ddefnyddio'r llain galed.

Cymhwyso

8. (1) Nid yw'r gwaharddiad a'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Prohibition and Restriction

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed on the length of the motorway specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle with an overall width exceeding 2.5 metres to enter or proceed in any lane other than the left hand lane of the lengths of the motorway specified in Schedule 2 to this Order.

5. No person may, during the works period, drive any vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the motorway specified in Schedule 3 to this Order.

Suspensions

6. The provisions of regulation 3 of the Motorway Traffic (Speed Limit) Regulations 1974(3), insofar as they apply to the lengths of motorway specified in Schedule 3, are suspended during such times as the restriction specified in article 5 is in operation.

7. The provisions of regulation 5 of the Motorways Traffic (England and Wales) Regulations 1982(4) and the provisions of Regulation 9 of those Regulations relating to the driving of vehicles are suspended insofar as they apply to the hard shoulder of the lengths of the motorway specified in Schedule 4 to this Order and traffic is directed to use the hard shoulder.

Application

8. (1) The prohibition and restriction in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

(3) O.S. 1974/502
(4) O.S. 1982/1163

(3) S.I. 1974/502
(4) S.I. 1982/1163

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Tachwedd 2018

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Duration of this Order

9. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated 23 November 2018

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r brif gerbyttffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23 hyd at bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twannel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn).

ATODLEN 2 Cyfyngu ar Led Cerbydau a Chaniatáu Traffig Dros Dro ar Lonydd Culion 1, 2 a 3

Y darn o'r brif gerbyttffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twannel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn) hyd at bwynt 100 metr i'r dwyrain o bont Caldicot Road y B4245.

Y darn o'r brif gerbyttffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 300 metr i'r dwyrain o bont Caldicot Road y B4245 hyd at bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twannel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn).

ATODLEN 3 Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o'r brif gerbyttffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twannel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn) hyd at ganolbwynt pont Caldicot Road y B4245.

Y darn o'r brif gerbyttffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o ganolbwynt pont Vinegar Hill hyd at

SCHEDULES

SCHEDULE 1 Temporary Prohibition of Vehicles

The length of the main eastbound carriageway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 23 to a point 740 metres east of the centre of the bridge over the train line to Severn Tunnel Junction (western concession boundary).

SCHEDULE 2 Vehicle Width Restriction and Temporary Trafficking of Narrow Lanes 1, 2 and 3

The length of the main westbound carriageway that extends from a point 740 metres east of the centre of the bridge over the train line to Severn Tunnel Junction (western concession boundary) to a point 100 metres east of the B4245 Caldicot Road bridge.

The length of the main eastbound carriageway that extends from a point 300 metres east of the B4245 Caldicot Road bridge to a point 740 metres east of the centre of the bridge over the train line to Severn Tunnel Junction (western concession boundary).

SCHEDULE 3 Temporary 50 mph Speed Limit

The length of the main westbound carriageway that extends from a point 740 metres east of the centre of the bridge over the train line to Severn Tunnel Junction (western concession boundary) to the centre point of the B4245 Caldicot Road bridge.

The length of the main eastbound carriageway that extends from the centre point of Vinegar Hill bridge

bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twannel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn).

ATODLEN 4 Llain Galed

Y darn o lain galed y gerbyttffordd tua'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23 hyd at bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twannel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn).

Y darn o lain galed y gerbyttffordd tua'r gorllewin o bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twannel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23.

GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD 23, ROGIET I FFIN CYMRU/LLOEGR, SIR FYNWY) (GWAHARDD CERBYDAU, CANIATÁU TRAFFIG AR Y LLAIN GALED A THERFYN CYFLYMDER 50 MYA DROS DRO) 2018

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar draffordd yr M4, neu gerllaw iddi, i'r dwyrain o Gyffordd 23 yn Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar hyd y darn hwnnw o'r M4 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Dim ond yn ystod oriau'r nos y disgwylir i'r draffordd fod ar gau.

Caniateir defnyddio'r llain galed fel lôn arferol ar y darnau o'r M4 a bennir yn Atodlen 4 pan fydd y ffordd ar gau yn ystod y nos.

Fel arall, y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain yw gadael y draffordd wrth Gyffordd 23 a theithio ar yr M48 tua'r dwyrain i ailymuno â'r M4 wrth Gyffordd 21 a pharhau tua'r dwyrain. Dylai traffig sydd am deithio tua'r gorllewin i Redwick adael y draffordd wrth Gyffordd 20, teithio tua'r de ar yr M5 i ymadael wrth Gyffordd 16, dychwelyd tua'r gogledd ar yr M5 i ymadael wrth Gyffordd 15 a theithio tua'r gorllewin ar yr M4 i Gyffordd 22.

to a point 740 metres east of the centre of the bridge over the train line to Severn Tunnel Junction (western concession boundary).

SCHEDULE 4 Hard Shoulder

The length of the hard shoulder of the eastbound carriageway from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 23 to a point 740 metres east of the centre of the bridge over the train line to Severn Tunnel Junction (western concession boundary).

The length of the hard shoulder of the westbound carriageway from a point 740 metres east of the centre of the bridge over the train line to Severn Tunnel Junction (western concession boundary) to the nosing of the westbound entry slip road at Junction 23.

THE M4 MOTORWAY (JUNCTION 23, ROGIET TO THE WALES/ENGLAND BORDER, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, TRAFFICKING OF THE HARD SHOULDER AND 50 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2018

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the M4 motorway east of Junction 23, in the County of Monmouthshire.

The effect of the Order will be to temporarily:

i. Prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the M4 specified in Schedule 1 to this Notice. Closures are only expected to operate during night-time hours.

The use of the hard shoulder as a normal running lane on the lengths of the M4 specified in Schedule 4 may be permitted during the night time closures.

Otherwise, the alternative route for eastbound traffic is to exit the motorway at Junction 23 and travel on the M48 eastbound to re-join the M4 at Junction 21 and continue eastbound. Traffic wanting to travel west to Redwick should exit the motorway at Junction 20, travel south on the M5 to exit at Junction 16, return northbound on the M5 to exit at Junction 15 and travel westbound on the M4 to Junction 22.

ii. Prohibit all vehicles with an overall width exceeding 2.5 metres from entering or proceeding in any lane other than the left hand lane of the lengths of

ii. Gwahardd pob cerbyd sy'n 2.5 o fetrau o led neu fwy rhag mynd i unrhyw lôn nac ar unrhyw lôn ac eithrio lôn chwith y darnau o'r M4 a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

iii. Gosod terfyn cyflymder o 50 mya ar y darnau o'r M4 a bennir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Bydd y terfyn cyflymder dros dro yn weithredol drwy gydol cyfnod para'r gwaith.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiad, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol rhwng 20:00 o'r gloch ar 1 Rhagfyr 2018 hyd 06:00 o'r gloch ar 18 Ebrill 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd y gwaharddiadau yn weithredol yn ysbeidiol dros nos rhwng 19:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch a bydd y cyfyngiad 50 mya yn weithredol ar bob adeg.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos tua 2 wythnos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchmynion traffig dros dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23 hyd at bwynt 740 o fetrau i'r

the M4 specified in Schedule 2 to this Notice.

iii. Impose a 50 mph speed limit on the lengths of M4 specified in Schedule 3 to this Notice. The temporary speed limit will be in place for the duration of the works.

It is expected that the prohibitions and restriction, which will be signed accordingly, will be in force from 20:00 hours on 1 December 2018 until 06:00 hours on 18 April 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The prohibitions will operate intermittently overnight between 19:00 hours and 06:00 hours and the 50 mph restriction will operate at all times.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed approximately 2 weeks before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULES

SCHEDULE 1 Temporary Prohibition of Vehicles

The length of the main eastbound carriageway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 23 to a point 740 metres east of the

dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twannel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn).

ATODLEN 2

Cyfyngu ar Led Cerbydau a Chaniatáu Traffig Dros Dro ar Lonydd Culion 1, 2 a 3

Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twannel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn) hyd at bwynt 100 metr i'r dwyrain o bont Caldicot Road y B4245.

Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 300 metr i'r dwyrain o ganol Caldicot Road y B4245 hyd at bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twannel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn).

ATODLEN 3

Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twannel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn) hyd at ganolbwynt pont Caldicot Road y B4245.

Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o ganolbwynt pont Vinegar Hill hyd at bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twannel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn).

ATODLEN 4

Llain Galed

Y darn o lain galed y gerbyttfordd tua'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23 hyd at bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twannel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn).

Y darn o lain galed y gerbyttfordd tua'r gorllewin o bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twannel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23.

centre of the bridge over the train line to Severn Tunnel Junction (western concession boundary).

SCHEDULE 2

Vehicle Width Restriction and Temporary Trafficking of Narrow Lanes 1, 2 & 3

The length of the main westbound carriageway that extends from a point 740 metres east of the centre of the bridge over the train line to Severn Tunnel Junction (western concession boundary) to a point 100 metres east of the B4245 Caldicot Road bridge.

The length of the main eastbound carriageway that extends from a point 300 metres east of the B4245 Caldicot Road bridge to a point 740 metres east of the centre of the bridge over the train line to Severn Tunnel Junction (western concession boundary).

SCHEDULE 3

Temporary 50 mph Speed Limit

The length of the main westbound carriageway that extends from a point 740 metres east of the centre of the bridge over the train line to Severn Tunnel Junction (western concession boundary) to the centre point of the B4245 Caldicot Road bridge.

The length of the main eastbound carriageway that extends from the centre point of Vinegar Hill bridge to a point 740 metres east of the centre of the bridge over the train line to Severn Tunnel Junction (western concession boundary).

SCHEDULE 4

Hard Shoulder

The length of the hard shoulder of the eastbound carriageway from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 23 to a point 740 metres east of the centre of the bridge over the train line to Severn Tunnel Junction (western concession boundary).

The length of the hard shoulder of the westbound carriageway from a point 740 metres east of the centre of the bridge over the train line to Severn Tunnel Junction (western concession boundary) to the nosing of the westbound entry slip road at Junction 23.